Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg
(Gwahardd A Chyfyngu Ar Fannau Aros A Llwytho A Mannau Parcio)
(Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 11) 2021

1. Ar 17 Ionawr 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 31 Ionawr 2022 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn cael eu rhoi yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 1) 2021".
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk/hysbysiadaucyfreithiol
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 31 Ionawr 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

Atodlen

Insert into Map Schedules AR31 and AS31
Nl fydd y cyfyngiadau canlynol yn berthnasol pan fo'r marciau wedi'u hepgor wrth fynediad gatiau, croesfan gerbydau neu gerddwyr. neu unrhyw rai o'r ffyrdd a enwir.
Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg
St Athan Road, Sain Tathan
Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a Ffordd y Spitfire, tua'r gorllewin am tua 75 metr.
Ar yr ochr ddeheuol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a Ffordd y Spitfire, tua'r gorllewin am tua 80 metr.
Eglwys Brewis Road, Sain Tathan
Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, St Athan Road a Ffordd y Spitfire, tua'r de-orllewin am tua 38 metr.
Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, St Athan Road a Ffordd y Spitfire, tua'r de-orllewin am tua 46 metr.
Heol y Bont-faen, Sain Tathan
Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd-gylchfan ag Eglwys Brewis Road, Ffordd y Spitfire a St Athan Road, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol hyd at y gyffordd â Chae'r Victor, pellter o tua 215 metr.
Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd â Chae'r Victor, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol i'r gyffordd â Flemingston Road, pellter o tua 90 metr.
Ar yr ochr ddeheuol, o'r gyffordd-gylchfan ag Eglwys Brewis Road, Ffordd y Spitfire a St Athan Road i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol, yn gyffiniol â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol, pellter o tua 365 metr.
Ffordd y Spitfire, Sain Tathan
Ar yr ochr orllewinol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a St Athan Road, tua'r gogledd am tua 25 metr.

Ar yr ochr ddwyreiniol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a St Athan Road, tua'r gogledd am tua 27 metr.

Cae'r Victor, Sain Tathan
Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol y Bont-faen tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am tua 38 metr.
Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Heol y Bont-faen tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am tua 17 metr.
Flemingston Road, Sain Tathan
Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol Orllewinol y Bont-faen, tua'r gogledd-ddwyrain am tua 20 metr.
Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Heol y Bont-faen ac yn gyffiniol â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol, tua'r gogledd-ddwyrain am tua 15 metr.

Dyddiad: 27 Ionawr 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA